

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ward 3/4, Ysbyty Nevill Hall

Dyddiad y gweithgarwch: 29 Medi 2020

Dyddiad cyhoeddi: 26 Hydref 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ward 3/4, Ysbyty Nevill Hall fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Dirprwy Brif Nyrs y Ward ar 29 Medi 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei lleoliad. Roedd yr Uwch-nyrs Gofal heb ei Drefnu a'r Nyrs Ranbarthol Dros Dro Gofal heb ei Drefnu ar gyfer Wardiau Meddygol hefyd yn bresennol. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; a'r newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gwnaethom adolygu polisiâu allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd ward 3/4 yn ward strôc, adsefydlu a gofal i'r henoed â 28 o welyau. Symudodd y

ward yn gyfan gwbl o Ward 1/2 fel rhan o Raglen Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd ar 4 Medi 2020. Roedd pedwar gwely yn un o'r cilfannau wedi cael eu haddasu yn ystafell therapi ar gyfer ymarfer corff ac asesu. Roedd wyth ystafell ochr a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion a oedd angen nyrsio ataliol a gofal lliniarol, yn ogystal ag ystafell driniaeth ac amlddisgyblaethol.

Dywedodd Dirprwy Brif Nyrs y Ward wrthym fod cyfarfodydd dyddiol yn cael eu cynnal i drafod cynlluniau gofal a rhyddhau pob claf. Roedd amrywiaeth eang o ddisgyblaethau ar y ward a oedd yn cynnwys therapyddion lleferydd ac iaith ar gyfer cleifion â phroblemau lleferydd a llyncu. Roedd y cleifion a gweithwyr clinigol yn cadw mewn cysylltiad â theuluoedd drwy ddyfeisiau electronig personol yn bennaf, lle roedd materion yn cael eu trafod, gan gynnwys cynllunio i ryddhau cleifion yn ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn gwisgo PPE addas, gan gynnwys ffedogau, menyg a masgiau. Os oedd y staff o fewn dau fetr i'r cleifion, byddent hefyd yn gwisgo feisorau neu gogls. Hefyd, roedd peiriannau gel dwylo a PPE y tu allan i gilfannau ac ystafelloedd y cleifion, ac roedd gel dwylo wrth ymyl gwely pob claf. Roedd posteri yn sôn am gel dwylo ac arwyddion am COVID-19 i'w gweld ar y ward. Roedd y cilfannau wedi'u cynllunio mewn ffordd a oedd yn sicrhau bod y cleifion yn gallu cadw pellter cymdeithasol.

Roedd nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r ward er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i ddilyn mesurau atal a rheoli heintiau; cawsom wybod bod y rhain yn cynnwys glanhau ychwanegol a sychu arwynebau â weips clinigol. Roedd y ward yn cael ei glanhau'n rheolaidd yn ystod y dydd a'r nos. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cynnal, ac roedd y staff hefyd yn cael eu hannog i roi gwybod i staff eraill am unrhyw fethiannau o ran hylendid neu wisgo PPE. Ar hyn o bryd, nid oedd pobl yn cael ymweld â chleifion ar y ward, ar wahân i gleifion diwedd oes a gofal lliniarol. Roedd mesurau atal a rheoli heintiau llym ar gyfer yr ymwelwyr hyn, gan gynnwys gwisgo PPE a defnyddio protocolau profi, olrhain a diogelu.

Dywedwyd wrthym fod digon o PPE ar y ward a'i fod ar gael o'r storfa ganolog. Roedd arwyddion ar y ward ac ym mhob rhan o'r ysbyty yn glŷn â'r PPE priodol i'w wisgo. Roedd y staff wedi cael prawf ffitio masg FFP3¹ ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i wisgo a diosg PPE llawn yn gywir. Roedd y sesiwn hon hefyd wedi cael ei recordio ac roedd modd i'r staff ei gweld ar system negeseua amgryptio o'r dechrau i'r diwedd.

Roedd unrhyw gleifion a oedd yn dangos symptomau COVID-19 yn cael eu symud i ward arall er mwyn cynnal archwiliadau pellach, gan gynnwys swabio. Roedd y cleifion yn dychwelyd i'r ward os byddai'r canlyniadau yn dangos nad oedd ganddynt COVID-19. Byddai'r hwb meddygol yn cael gwybod am unrhyw achosion o COVID-19 a amheuid ac yna byddai'r staff rheoli heintiau yn cael eu cynnwys. Os byddai'r staff yn dangos symptomau, byddent yn cael eu hanfon adref a byddai trefniadau yn cael eu gwneud i'w profi'n briodol.

¹Mae masgiau FFP3 yn cynnig lefel uchel o ddiogelwch yn erbyn gronynnau peryglus a halogi ymbelydrol.

Nid oedd y staff yn cael dychwelyd i'r gwaith nes i'w symptomau ddiflannu - hefyd, gall y staff bellach gael prawf gwrthgyrff². Roedd y cleifion a oedd yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty hefyd yn cael prawf cyn gadael y ward - roedd angen canlyniadau negatïf, yn ogystal â'r pecyn gofal, cyn cael eu rhyddhau.

Dyweddodd y Dirprwy Brif Nyrs fod y staff yn gallu siarad â'r tîm llesiant a bod pawb yn barod i helpu ei gilydd. Hefyd, roedd modd i'r staff ddefnyddio seicolegydd yr ysbyty a oedd yn cynnal sesiynau galw heibio. Cysylltwyd yn rheolaidd â'r staff a oedd wedi dal COVID-19 a'u teuluoedd, gan sicrhau bod ganddynt yr holl gyngor perthnasol a'u bod yn gwybod â pha asiantaethau perthnasol i gysylltu.

Dywedwyd wrthym fod modd i'r staff gael hyfforddiant o hyd, ond cyfyngwyd arno oherwydd COVID-19. Roedd yr holl ofynion hyfforddiant, yn ogystal â chynlluniau datblygu personol ac amcanion, yn cael eu trafod mewn arfarniadau blynyddol ac roedd y staff yn cael eu hannog, fel rhan o'u datblygiad, i gael hyfforddiant. Cafwyd hyfforddiant diweddar ar Ofal Traceostomi³ a hyfforddiant ar leferydd ac iaith, gan gynnwys protocol llyncu Yale⁴, er enghraifft.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cawsom dystiolaeth a oedd yn ymwneud â hyfforddiant gorfodol, a oedd yn dangos cyfradd gydymffurfio o 70% ar gyfer y rhan fwyaf o'r hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, roedd cyfradd gydymffurfio Asesiad Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu i Gymru Gyfan o dan 30% ac roedd llywodraethu gwybodaeth o dan 50%. Nod Adnodd Asesu Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu i Gymru Gyfan oedd nodi staff a oedd yn wynebu risg ac yn agored i niwed yr oedd angen eu hadleoli o rolau rheng flaen yn delio â chleifion. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd y bydd nifer y staff sydd wedi cwblhau'r modiwlau hyfforddiant pwysig hyn yn cynyddu'n sylweddol ac y bydd y mesurau y maent yn bwriadu eu rhoi ar waith yn sicrhau y caiff y lefel hon ei chynnal.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

²Defnyddir profion gwrthgyrff i nodi gwrthgyrff i feirws COVID-19 er mwyn gweld a ydych yn debygol o fod wedi cael y feirws o'r blaen.

³ Darperir gofal traceostomi er mwyn cadw'r tiwb traceostomi yn lân. Mae hyn yn helpu i atal y tiwb rhag blocio ac yn lleihau eich risg o ddal haint.

⁴Mae Protocol Llyncu Yale (PLLY) yn cynnwys prawf sgrinio gwybyddol byr, arholiad echddygol y geg byr, a her dŵr 3 owns (gofynnir i'r unigolyn dan sylw yfed 3 owns o ddŵr i gyd ar yr un pryd).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cwblhau asesiadau amrywiol, gan gynnwys asesiad waterlow⁵ a risg o gwmpo, pan oedd y cleifion yn cael eu derbyn i'r ward. Os byddai'r claf yn wynebu risg uchel o gwmpo, yna byddai'r staff yn cwblhau asesiad risg cynllun gofal a oedd yn cael ei ddiweddarau'n wythnosol. Os byddai'r claf yn cwmpo, byddai'r cynllun yn cael ei ddiweddarau eto. Lle nad oedd gan y claf alluedd, roedd asesiad o alluedd a Threfniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid yn cael eu cwblhau. Yna, roedd gofynion gofal lefel uwch yn cael eu dogfennu a byddai'r uwch-nyrs yn cael gwybod amdanynt er mwyn gofyn am staff nyrsio ychwanegol i gadw'r claf yn ddiogel.

Gwelsom dystiolaeth o Ganlyniadau Archwilio'r Safonau Iechyd a Gofal - Atal Briwiau Pwysu a Niwed i'r Feinwe ar gyfer y 12 mis diwethaf. Roedd y dystiolaeth yn dangos cydymffurfiaeth lawn o ran asesu cyflwr croen y claf - roedd hyn hefyd wedi cael ei drafod â'r claf, ac roedd cydymffurfiaeth lawn lle roedd tystiolaeth bod angen cymorth ar y claf. Roedd tystiolaeth bod cynlluniau gofal cyfredol ar waith, a oedd wedi eu gwerthuso a'u hadolygu o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Roedd y dangosyddion gofal yn dangos nad oedd y cleifion wedi cael unrhyw friwiau pwysu a ddeilir wrth gael gofal iechyd yn ystod y flwyddyn bresennol. At hynny, ar gyfer yr un cyfnod, roedd y cyfraddau cydymffurfio wedi bod rhwng 70% a 100% gyda sgoriau maeth wedi'u cwblhau a champau gweithredu priodol wedi'u cymryd o fewn 24 awr i dderbyn claf.

Darparwyd tystiolaeth o asesiad risg iechyd a diogelwch y ward. Roedd yr asesiad hwn yn cynnwys nodi'r peryglon a'r gweithgarwch, y mesurau rheolaeth i leihau'r risg a'r mesurau rheolaeth ychwanegol sydd eu hangen er mwyn rheoli'r risg. Roedd y gwaith o gwblhau'r dogfennau hyn yn arbennig o nodedig gan eu bod wedi'u cwblhau o fewn tair wythnos i symud y ward.

Dywedwyd wrthym fod y mesurau i ddiogelu preifatrwydd ac urddas yn cynnwys defnyddio arwydd 'do not disturb' a phegiau ar gyfer gosod llenni urddas i'r cleifion pan oeddent yn derbyn gofal personol. Roedd gan y bwrdd iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau a oedd i'w weld yn amlwg yn y gofal a roddid gan yr holl staff nyrsio. Roedd gofal sy'n canolbwyntio ar y cleifion wrth wraidd y fframwaith hwn, gan sicrhau y gwrandewir ar ddymuniadau a dewisiadau'r cleifion a'u teuluoedd, ac y cânt eu gwireddu.

Dywedwyd wrthym fod urddas y cleifion hefyd yn cael ei chynnal drwy ddarparu siorts urddas, ac roedd teuluoedd yn cael eu hannog i ddod â dillad y cleifion i mewn. Roedd y cleifion yn cael eu hebrwng i'r toiled, yn hytrach na gofal wrth ymyl y gwely - roedd arwyddion ar y drysau hefyd i ddangos bod rhywun yn y toiled. Roedd hyn yn cynnwys teclyn a oedd yn helpu'r cleifion i sefyll i fyny'n ddiogel⁶, fel bod y cleifion yn ddiogel.

⁵Asesiad risg o friwiau pwysu yw Waterlow. Prif nod yr adnodd hwn yw helpu i asesu'r risg y bydd claf/cleient yn datblygu briw pwysu.

⁶Mae'r teclyn hwn yn hyrwyddo urddas ac annibyniaeth drwy fynd â chleifion i'r toiled a'r sinc, a gall eu cynorthwyo i wneud gweithgareddau eraill yn eu bywydau beunyddiol.

Roedd toiledau dynion a menywod a chawod ar ddwy ochr y ward, un ar gyfer y menywod ac un ar gyfer y dynion.

Cawsom wybod bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu yn llwyr yn yr amgylchedd drwy chwarae gemau a Gweithgareddau Therapi Hel Atgofion Rhyngweithiol (RITA)⁷. Roedd setiau teledu a radios ar y ward ac roedd teuluoedd yn cael eu hannog i gysylltu â chleifion drwy alwad fideo. Cyn cyfyngiadau presennol COVID-19, roedd teuluoedd yn cael eu hannog i fynd â'u perthynas allan i dir yr ysbyty. Byddai caplan hefyd yn ymweld â'r ward ar gais er mwyn diwallu anghenion ysbrydol y cleifion.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom dystiolaeth o'r polisiau perthnasol sydd ar waith yn y bwrdd iechyd - roedd y rhain yn cynnwys Polisi Atal Heintiau'r Bwrdd Iechyd a'i Weithdrefn Gweithredu Safonol (SOP) ar gyfer Gweithio'n Ddiogel yn ystod y Coronafeirws. Hefyd gwelsom dystiolaeth bod amserlenni glanhau dyddiol yn cael eu cwblhau ar gyfer yr holl ardaloedd clinigol ac anghlinigol. Roedd y ddwy Ddirprwy Brif Nyrs yn gwirio ac yn llofnodi'r rhain ac roedd y Nyrs â Chyfrifoldeb yn eu harchwilio ar ddiwedd yr wythnos. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth y ward a phenderfynu ar ba gamau sydd angen eu cymryd. Maent yn cael eu lanlwytho bob mis i'r dangosfwrdd Safonau Iechyd a Gofal yn y bwrdd iechyd.

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos nad oedd unrhyw un wedi cael haint a ddeilir wrth gael gofal iechyd ers mis Ionawr 2020. Pe byddai unrhyw achosion wedi bod, byddai rheolwr y ward a'r uwch-nyrs wedi eu hadolygu drwy broses Dadansoddi Gwraidd y Broblem ar gyfer Rheoli Heintiau. Yna, byddai unrhyw wersi a chamau gweithredu yn cael eu rhannu â holl staff y ward.

Gwelsom dystiolaeth o'r archwiliadau hylendid dwylo a oedd yn dangos cydymffurfiaeth uchel â'r gofynion, er enghraifft roedd y staff yn noeth o dan y penelin ac roeddent yn tynnu menyg i ffwrdd fel y bo'n briodol. At hynny, gwelsom dystiolaeth o'r archwiliad un claf, un diwrnod gofal heb ei drefnu, a oedd yn gwirio cleifion, staff ac ymddangosiad cyfarpar, yn ogystal ag adolygu cofnodion nyrsio, gyda chanlyniadau cadarnhaol. Dywedodd Dirprwy Brif Nyrs y Ward wrthym fod ymwybyddiaeth y staff o reoli heintiau wedi cynyddu'n ddiweddar, ac roedd o'r farn bod gan y ward gofnod glendid da.

⁷Mae RITA yn system therapi ddigidol o'r radd flaenaf sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n galluogi'r cleifion i ddefnyddio apiau, gemau a gweithgareddau hamdden eraill fel rhan o'u hadferiad yn yr ysbyty.

Roedd yr hunanasesiad a ddarparwyd yn nodi bod y nyrs rheoli heintiau (ICN) arbenigol yn archwilio'r ward bob tri mis a bod yr uwch-nyrs yn cadw gwylidwriaeth rhwng yr archwiliadau chwarterol hyn. Roedd yr archwiliad ICN yn cynnwys adolygiad o gydymffurfiaeth hylendid dwylo, cydymffurfiaeth yr amserlen glanhau, archwilio cyfarpar e.e. matresi a chomodau, monitro cyfraddau heintio (e.e. MRSA, CDT), cydymffurfiaeth sgrinio MRSA, hyfforddiant staff sy'n ymwneud yn benodol â rheoli heintiau. Roedd y dystiolaeth a roddwyd yn dangos bod yr archwiliadau hyn wedi cael eu cynnal hyd at fis Gorffennaf 2020, gyda'r rhan fwyaf o'r meysydd yn wyrdd (cydymffurfiaeth o 95% o leiaf). Cawsom wybod na chynhaliwyd archwiliad ym mis Awst oherwydd bod y ward yn symud ddechrau mis Medi. Hefyd, gwelsom y cynllun gweithredu a oedd yn rhestru'r camau a oedd yn cael eu cymryd mewn meysydd oren (86% i 94%) i ddangos gwelliant pellach.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiâu (megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Wrth adolygu'r hunanasesiad a ddarparwyd, gwnaethom nodi bod Dirprwy Brif Nyrs y Ward yn sicrhau bod y lefelau staffio yn bodloni'r lefelau y cytunwyd arnynt. Roedd hyn yn cael ei reoli drwy rota iechyd a oedd yn cael ei gymeradwyo gan yr uwch-nyrs hyd at dri mis ymlaen llaw. Yna, byddai bob rota yn cael ei adolygu gan ddirprwy brif nyrs ac uwch-nyrs y ward hyd at 48 awr ymlaen llaw er mwyn nodi unrhyw ddiffygion, a fyddai wedyn yn cael eu rheoli a'u huwchgyfeirio fel y bo'n briodol. At hynny, roedd y Dirprwy Brif Nyrs a'r Uwch-nyrs yn adolygu'r lefelau staffio yn ddyddiol ac roedd cynlluniau cynhwysfawr yn cael eu datblygu a'u trafod â'r tîm tu allan i oriau.

Dywedwyd wrthym y gofynnwyd i'r staff newid sifftiau er mwyn camu i'r adwy neu y gofynnwyd iddynt symud o rannau eraill o'r ysbyty pan fo modd. Roedd swyddi gwag yn cael eu hysbysebu i fanc adnoddau'r bwrdd iechyd ac asiantaethau nyrsio. Dywedodd Dirprwy Brif Nyrs y Ward wrthym fod nifer o staff banc a staff asiantaeth yn gweithio ar y ward, ac y ceisiwyd bloclogi'r staff hyn er mwyn sicrhau eu bod ar gael i weithio sifftiau. At hynny, dywedodd y staff fod cydberthnasau cadarn rhwng y staff yn yr ysbyty a'u bod yn adnabod ei gilydd. Roedd COVID-19 wedi golygu bod pawb yn cefnogi ei gilydd yn fwy ym mhob rhan o'r gyfarwyddiaeth meddygaeth. Er ei bod yn anodd cael staff i gamu i'r adwy weithiau lle roedd

cleifion gofal uwch ar y ward, ni fu unrhyw sifftiau lle cafwyd prinder staff. Roedd hyn wedi cynnwys ailgyflwyno protocolau gofal uwch i weithwyr cymorth gofal iechyd weithio'r sifftiau hyn.

Dywedodd Dirprwy Brif Nyrs y Ward wrthym fod y mwyafrif o'r hyfforddiant i staff yn cael ei gynnal ar-lein, a bod modd ei wneud gartref, ar wahân i Lywodraethu Gwybodaeth. Roedd y staff yn cael eu hannog i gwblhau'r hyfforddiant ar-lein ac roedd yr Uwch-nyrs, a oedd hefyd yn gallu gweld y data hyfforddiant, yn anfon negeseuon atgoffa rheolaidd. Roedd adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygu (PADR) yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn datblygu ymhellach a bod cyfleoedd yn cael eu creu mewn perthynas â datblygu proffesiynol, arweinyddiaeth a sgiliau clinigol. Roedd cydymffurfiaeth lawn â'r arfarniad, ar wahân i un aelod o'r staff a oedd ar gyfnod mamolaeth.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn canmol cymorth a goruchwyliaeth y rheolwyr, ac roeddent hefyd yn gadarnhaol iawn am y staff ar y ward. Roedd hyn yn cynnwys adborth cadarnhaol gan y staff banc a'r staff asiantaeth a oedd wedi gweithio ar y ward, er gwaethaf yr aciwtedd uchel, a bod yr uwch-reolwyr yn cymryd yr amser i ddiolch i'r staff am eu gwaith. Hefyd, dywedodd Dirprwy Brif Nyrs y Ward wrthym ei bod yn credu bod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn isel oherwydd bod y morâl yn uchel.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod y ward yn brin o ychydig o dan wyth aelod cymwysedig o staff. Roedd swyddi gwag ar gyfer nyrsys cofrestredig yn cael eu hysbysebu'n allanol gan yr Uwch-nyrs unwaith y mis. Roeddent hefyd yn cael eu hysbysebu fel hysbyseb ar y cyd ag is-adrannau eraill bob mis. Hefyd, cynhaliwyd rhaglen gynhwysfawr ar gyfer recriwtio nyrsys o dramor. Er bod hyn bellach yn golygu bod y ward yn brin o ychydig o dan bedwar a hanner aelod o staff, roedd y prinder staff hwn wedi ei gwneud hi'n anodd sicrhau bod aelodau parhaol o staff ar gael i gamu i'r adwy. Rydym yn argymhell y dylid gwneud rhagor o waith i leihau'r prinder staff.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Nevill Hall

Ward: Ward 3/4

Dyddiad y gweithgarwch: 29 Medi 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhi f Cyf .	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	<p>Roedd y dystiolaeth a roddwyd ar gyfer yr hyfforddiant gorfodol yn dangos cydymffurfiaeth isel â'r canlynol: Aseiad Risg COVID-19 ar gyfer y Gweithlu i Gymru Gyfan a oedd ychydig o dan 30%, a llywodraethu gwybodaeth a oedd o dan 50%.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd y bydd nifer y staff sydd wedi cwblhau'r modiwlau hyfforddiant pwysig hyn yn cynyddu'n sylweddol ac y bydd y mesurau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith yn sicrhau y caiff y lefel hon ei chynnal.</p>	Safon 7.1 Y Gweithlu	<p>Ers i'r ward symud ac ymgartrefu yn ei hamgylchedd newydd, mae adolygiad o'r gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar 13.10.20 wedi dangos gwelliant sylweddol; mae hyfforddiant ar-lein ar COVID-19 bellach yn 73%. (Tystiolaeth ategol wedi'i darparu.)</p> <p>Bydd cymorth pellach yn cael ei gynnig i'r staff nad ydynt wedi cwblhau hyfforddiant ar COVID-19 eto drwy hwyluso amser ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith a phwyslais penodol gan y rheolwyr.</p> <p>Mae cydymffurfiaeth lawn â hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth. (Tystiolaeth ategol wedi'i darparu.)</p> <p>Caiff cydymffurfiaeth y staff ei hasesu'n fisol gan Reolwr y Ward a'r Uwch-nyrs er mwyn asesu cydymffurfiaeth a sicrhau gwelliant fel y bo angen.</p>	Uwch-nyrs USC	14 Ionawr 2021

Rhif Cyf.	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
2	<p>Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod y ward yn brin o ychydig o dan wyth aelod cymwysedig o staff. Dywedwyd wrthym fod hyn bellach wedi lleihau i ychydig o dan bedwar a hanner aelod o staff □ roedd y prinder staff hwn wedi ei gwneud hi'n anodd sicrhau bod aelodau parhaol o staff ar gael i gamu i'r adwy.</p> <p>Rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn rhoi gwybod i AGIC am y gwaith pellach sy'n cael ei wneud er mwyn lleihau'r prinder staff.</p>	Safon 7.1 Y Gweithlu	<p>Mae'r diffygion sefydliadol o ran nyrsys cofrestredig wedi'u cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r Gofrestr Risgiau COVID-19.</p> <p>Caiff Adnodd Olrhain Gweithlu'r Nyrsys Cofrestredig ei gyflwyno'n rheolaidd i'r Tîm Gweithredol, yn ogystal â rhaglen glir i ddenu, recriwtio a chadw staff. Mae ymdrechion sylweddol wedi cael eu gwneud yn sefydliadol er mwyn sicrhau lefelau staffio diogel, gan gynnwys model gofal newydd (Model y Tîm Gofal Craidd), cyflwyno Ymarferwyr Cynorthwyol Band 4, Recriwtio Nyrsys o Dramor, Olwynion Recriwtio, ynghyd â recriwtio cyson o'r Banc Adnoddau a defnyddio Asiantaethau.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae yna swyddi gwag ar gyfer Nyrsys Cofrestredig sy'n cyfateb i 4.56 o swyddi cyfwerth ag amser llawn - caiff y rhain eu llenwi, dros dro, drwy staff banc, staff asiantaeth a goramser. Mae hysbyseb sy'n cau ar 14.10.20 wedi denu dau ymgeisydd, ac mae Nyrs Gofrestredig arall wedi dangos diddordeb mewn adleoliad mewnol i Ward 3/4 fel rhan o Raglen Dyfodol Clinigol. (Tystiolaeth ategol wedi'i darparu.)</p> <p>Mae hysbyseb dreigl ar waith, ynghyd â Chynllun Symleiddio i Nyrsys dan Hyfforddiant er mwyn denu Nyrsys Cofrestredig.</p>	Uwch-nyrs USC	Canol mis Hydref 2020

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Beverley Cadman

Dyddiad: 14 Hydref 2020